

Hysbyseb

Rydym yn recriwtio!

Mae'n Flwyddyn Newydd! Ydych chi'n chwilio am?

- Gyfleoedd newydd i allu cael effaith gadarnhaol?
- Heriau newydd?

tide – gyda'n gilydd mewn dementia bob dydd (*together in dementia every day*) – yw rhwydwaith ar draws y DU ar gyfer cynnwys gofalwyr a chyn ofalwyr pobl â dementia. Daw o dan nawdd y *Life Story Network CIC* ac mae ar fin dod yn elusen ei hun. Drwy'n Rhaglen Datblygu Gofalwyr, mae *tide* yn buddsoddi mewn gofalwyr a chyn ofalwyr, yn rhoi iddyn nhw yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i ddweud eu dweud er mwyn dylanwadu ar ymarfer, polisi ac ymchwil ar bob lefel mewn gofal a chefnogaeth dementia ledled y DU.

Rydym yn dîm gweithgar o entrepreneuriaid cymdeithasol, yn gweithio o fewn fframwaith hawliau dynol i rymuso gofalwyr a chyn ofalwyr pobl â dementia i fod yn fudiad cymdeithasol cynaliadwy sy'n arwain at newid.

Bydd 2019 yn flwyddyn gyffrous i *tide*. Gan adeiladu ar ein llwyddiant dros y tair blynedd ddiwethaf, rydym wedi cael grant Portffolio o £1.2m gan Loteri Fawr y DU i ehangu yn Lloegr (gan ganolbwyntio ar Sir Efrog a'r Humber), a sefydlu *tide* yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Gan gyfuno hyn â'n cyllid presennol o £4.8m dros bedair blynedd o'r Ymddiriedolaeth *Life Changes* yn yr Alban, rydym am wireddu'n huchelgais o weld *tide* yn dod yn rhwydwaith DU-gyfan i ofalwyr pobl sy'n byw â dementia.

Ein bwriad yw ehangu'n tîm i gyflawni'r mudiad cymdeithasol trawsnewidiol hwn ac rydym yn dymuno denu pobl frwdfrydig ac ymroddgar i ategu'n tîm presennol.

Rydym yn chwilio am:

- **Pennaeth Gweithrediadau** - mae hon yn swydd bwysig a gwerth chweil dros y DU yn gweithio ar draws yr LSN a *tide* gyda llawer o gyfrifoldeb. Ydych chi yn arweinydd ysbrydoledig, yn barod i arwain tîm sy'n tyfu ac yn gofalu am fudiad cymdeithasol trawsnewidiol dros y DU? A ydych yn gallu gweithio gyda phobl, cynlluniau, deilliannau cadarnhaol a rhifau? A oes gennych weledigaeth glir, dycnwch ac ymrwymiad amlwg i wireddu'n cenhadaeth a datblygu rhwydweithiau o arweinwyr ar bob lefel? Byddwch chi hefyd yn arwain y tîm, yn gweithio gyda'r Pennaeth Busnes a Pherfformiad a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i sefydlu'r seilwaith angenrheidiol i wneud *tide* yn gynaliadwy.
- **Dau Arweinydd Cenedlaethol Cynnwys Gofalwyr** – y naill i Gymru a'r llall i Lloegr. Bydd y bobl iawn wedi ymrwymo i sicrhau fod gofalwyr pobl â

dementia yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi ac yn cael cyfleoedd i ffurfio a dylanwadu ar gyfeiriad polisi, ymchwil, comisiynu, hyfforddiant ac ymarfer dementia ym mhob gwlad. Un o'r prif dasgau fydd rhoi seilwaith dysgu a datblygu yn ei le i rymuso gofalwyr a chyn ofalwyr i gael llais torfol.

- **Tri Arweinydd Cynnwys Gofalwyr** – ochr yn ochr â'r Arweinwyr Cenedlaethol Cynnwys Gofalwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban/Gogledd Iwerddon, byddwch yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol a rhanbarthol ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector ym mhob gwlad i adnabod gofalwyr a chyn ofalwyr pobl â dementia, sydd eisiau gweld newid a gwneud gwahaniaeth go iawn. Yn ogystal ag ardal ddaearyddol, bydd eich rôl yn ymdrin ag un o themâu penodol tide.
- **Cydlynnydd Dysgu a Datblygu**– byddwch yn gweithio gyda'r Arweinydd Dysgu a Datblygu a Chydlynwyr eraill i fynd ati i greu Rhaglen Datblygu Gofalwyr yn seiliedig ar anghenion cydnabyddedig aelodau tide. Gyda'r Arweinwyr Cynnwys Gofalwyr, byddwch yn cyflwyno'r rhaglen yng Nghymru i ddechrau a byddwch yn gweithio gyda'r tîm Dysgu a Datblygu ehangach i gefnogi cyflwyno'r rhaglen ledled y DU. Byddwch yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth o effaith gan y grwpiau hynny o bobl.
- Ewch i'n gwefan www.tide.uk.net i lawrlwytho pecyn ymgeisio ar gyfer unrhyw un o'r swyddi uchod sydd o ddiddordeb i chi.

Dyddiad Cau pob swydd: **11 Chwefror 2019**

Tynnu rhestr fer: **Wythnos yn dechrau 11 Chwefror 2019**

Hysbysu ymgeiswyr posibl: **Wythnos yn dechrau 18 Chwefror 2019**

Cynhelir cyfweiliadau dros bythefnos rhwng - **25 Chwefror ac 11 Mawrth 2019**

I gael trafodaeth anffurfiol am unrhyw un o'r swyddi hyn, cysylltwch â Pauline Burke ar 0151 237 2669 neu drwy e-bost Pauline@lifestorynetwork.org.uk ac fe'ch cyfeirir at aelod mwyaf addas y tîm.